Diffiniadau

Mae Dwli'n dweud:



Rwyt ti'n defnyddio **diffiniad** i egluro beth yw rhywbeth.

Er enghraifft:
Diffiniad o **Ddraig** yw 'anifail mewn chwedlau sy'n gallu chwythu tân'.

1. Chwilia am y diffiniad cywir i bob gair. Yna, lliwia'r gair a'r diffiniad cywir yr un lliw.

Gair	**Diffiniad**
codi	a. chwe deg munud
beudy	b. mwy nag un llaw
sedd	c. gwneud yr un sŵn â dafad
dwylo	ch. symud rhywbeth i fyny; sefyll ar ôl bod yn eistedd neu'n gorwedd
awr	d. math o dŷ ar olwynion sy'n gallu cael ei dynnu o le i le gan gar
brefu	dd. cadair, stôl, rhywbeth i eistedd ynddo
swnllyd	e. adeilad lle mae da neu wartheg yn cael eu cadw
carafán	f. yn gwneud llawer o sŵn

2. Nawr darllen y diffiniadau hyn a cheisia ddyfalu beth maen nhw'n ei ddiffinio. Mae un enghraifft yn barod i ti.

Diffiniad	**Beth yw'r gair?**
a. pryd cyntaf y dydd	brecwast
b. anifail o Affrica tebyg i geffyl a stribedi du a gwyn drosto	
c. dyn sy'n creu swynion mewn straeon a chwedlau	
ch. aderyn â llygaid mawr sy'n hela anifeiliaid bach yn y nos	
d. adeilad lle mae pobl yn byw gyda'i gilydd	
dd. mwy nag un ddeilen	
e. yr hylif clir sydd mewn afonydd, yn y môr ac mewn glaw	



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Definitions

Dwli says. You use a definition to explain what something is. For example, the definition of a **Dragon** is: 'An animal in legends that can blow fire'.

1. Look for the correct definition for every word. Then colour the word and the definition the same colour.
   codi = to get up (ch. moving something upwards; standing after being seated/lying down); beudy = cowshed (e. a building where cows are kept); sedd = seat (dd. a chair, stool, something to sit on); dwylo = hands (b. more than one hand); awr = hour (a. sixty minutes); brefu = to bleat (c. making the same noise as a sheep); swnllyd = noisy (f. making a lot of noise); carafán = caravan (d. a kind of house on wheels that can be pulled from place to place by a car).
2. Now read these definitions and try to guess what they define. One example has been done for you. a. first meal of the day = brecwast/breakfast; b. an animal from Africa similar to a horse covered in black and white stripes = sebra/zebra, c. a man who makes spells in stories and legends (dewin = magician); ch. a bird with large eyes which hunts small animals at night (tylluan or gwdihŵ = owl); d. building where people live together (tŷ = house); dd. more than one leaf (dail = leaves); e. the clear liquid found in rivers, the sea and in rain (dŵr = water).

Look in 'Geiriadur Gomer i'r Ifanc' (Gomer's Dictionary for Youngsters) for more words and definitions.

* Now, colour in the **Diffiniadau** star on page 48.

Chwilia yn 'Geiriadur Gomer i'r Ifanc' am fwy o eiriau a diffiniadau.



Lliwia'r seren â **Diffiniadau** arni ar dudalen 48.*